**CYNGOR CYMUNED BUAN**

**Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd Nos Iau, 12fed Medi 2024**

**Yng Nghlwb Chwaraeon Pwllheli am 7.30 yh**

**Presennol:**

**Cynghorwyr**

Hughie Williams (Cadeirydd)

Catherine Hughes

Gareth Roberts

Tesni Jones

Wynne Davies

Phil Roberts

Nia M Jones

Cynghorydd Sirol Anwen Davies

Nia Jane Owen-Midwood (Clerc)

**Ymddiheuriadau**
Cafwyd ymddiheuriadau gan, Rhys Jones (Is-gadeirydd), Dafydd Ll Williams ac Einir Lewis.

**Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin**
Cadarnhawyd bod cofnodion 11/07/24 yn gywir gan y Cynghorydd Catherine Hughes, ac fe'i heilwyd gan y Cynghorydd Tesni Jones.

**Materion yn codi**

**Ail arwyddo'r cofnodion 13/06/24**
Bu i'r Cadeirydd ail arwyddo cofnodion 13/06/24 gan nad oedd lleoliad ein cyfarfod Mis Gorffennaf wedi ei nodi'n gywir arnynt, yn dilyn ail leoli'r cyfarfod yng Nghlwb Chwaraeon Pwllheli.

**Arwyddo'r ffurflen flynyddol Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31/03/24**
Bu i'r Cadeirydd a'r Clerc arwyddo'r ffurflen hon yn ystod y cyfarfod. Bydd angen i'r Clerc sganio'r ddogfen a'i lleoli a'r Wefan Cyngor Cymuned Buan.

**Y Fainc ym Moduan**
Bu i ni drafod y Fainc ym Moduan. Roedd pawb yn gytun i gael gwneud plac newydd ar ei chyfer. Plac "brass" ac ysgrifen ddu arno gyda'r geiriau **"Rest and be thankful".**

Nodwyd y byddai'r Clerc yn gofyn i Mike Tanner i wneud y plac, ac y byddai'r Cadeirydd yn ei osod.

**<u>Cae Chwarae a Maes Parcio, Rhydyclafdy</u>**
Nodwyd y Cadeirydd bod gwaith a'r y Cae Chwarae a'r Maes Parcio i fod i ddechrau ymhen pythefnos, a bod y Pwyllgor yn disgwyl i glywed os oes mwy o brês grant ar gael. Nodwyd y Cadeirydd y byddai'n cysylltu gyda Ken er mwyn dilyn i fyny ar y gwaith concritio.

**<u>Gohebiaeth</u>**

**<u>Gosod Cofeb ger safle'r Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan</u>**
Nodwyd bod cyfarfod safle wedi cymryd lle 09/09/24. Bu i'r Cadeirydd a'r Cynghorydd Catherine Hughes gyfarfod Gareth Roberts (Adran Priffyrdd) a Dafydd Merfyn (Adran Gofal Stryd) ar y safle. Bu i GR gytuno i ni gael gosod y garreg gilbost ar y safle – 6 troedfedd oddiwrth y Bocs AA. Cytunwyd y byddem yn cael defnyddio Gareth, Llwyn Beuno i wneud y gwaith tyllu i ni.

Penderfynwyd y byddem yn rhaglennu'r gwaith ar gyfer penwythnos y 5ed o Hydref. Bu i bawb dderbyn englyn Iestyn Tyne. Trafodwyd bod y Clerc wedi cysylltu hefo Mike Tanner, Llechi'r Ddraig a Cerrig. Penderfynwyd i'r Clerc ofyn wrth Cerrig am brisiau ar gyfer llechan, pris naddu'r 'sgwennu yn y garreg ac "acrylic signs".

**<u>Casglu Ysbwriel</u>**
Trafodwyd y sefyllfa o'r biniau ysbwriel yn cael eu cadw tu allan i dai ym Mhentre' Rhydyclafdy am ddyddiau ar y tro. Mae'r sefyllfa wedi altro yn y Pentref, nodwyd bod y biniau yn cael eu casglu ar Ddydd Mawrth ac erbyn Dydd Mercher mae'r biniau wedi eu cadw. Diolchwyd i'r Cynghorydd Sirol am gysylltu gyda Adran Gwastraff ac Ailgylchu, Cyngor Gwynedd.

**<u>Cais Cynllunio</u>**
C23/0914/33/DT – Y Bwthyn, Ceidio, Pwllheli, Gwynedd. LL53 8UG – Estyniad llawr cyntaf i'r eiddo. Bu i'r Cyngor Cymuned gefnogi'r cais.

C24/0709/33/CR – Cefn Iwrch, Rhydyclafdy, Pwllheli, Gwynedd. LL53 8TT – Amnewid 6 ffenestr presennol modern gyda rhai newydd pren unedau dwbl ac addasiadau mewnol. Bu i'r Cyngor Cymuned gefnogi'r cais.

C24/0704/33/LL – Cais ôl-weithredol yn ymwneud a chodi adeilad i gadw hofrennydd, creu helipad, ac estyniadau i'r tŷ – Ynys, Edern, Pwllheli, Gwynedd. LL53 8UA. Bu i'r Cyngor Cymuned **wrthod y cais cynllunio yn gyfangwbl.** Gofynnwyd i'r Clerc i ebostio'r Adran Gynllunio yn nodi hyn.

Ni wnaeth unrhyw gynhorydd ddatgan diddordeb yn y ceisiadau cynllunio uchod**.**

**<u>Materion ariannol</u>**
Er nad oedd gennym gyfarfod yn ystod Mis Awst bu i'r Clerc gyfarfod y Cynghorydd Catherine Hughes a'r Cynghorydd Tesni Jones yn Nhalybont, Rhydyclafdy 12/08/24 er mwyn arwyddo 8 o sieciau, er mwyn osgoi oedi :

| | | |
|---|---|---|
| Siec Rhif 200811 | Un Llais Cymru | £91.00 |
| Siec Rhif 200812 | Bacstal – Paratoi cyflogau am y chwarter i 30/06/24 | £148.80c |
| Siec Rhif 200813 | Cyngor Gwynedd – Archwiliad Mewnol | £264.00 |
| Siec Rhif 200814 | Ad-daliad am Ream A4 o bapur | £4.75c |
| Siec Rhif 200815 | Ad-daliad am inc i'r printar | £16.99c |
| Siec Rhif 200816 | Cyflog y Clerc (Mis 5) | £204.80c |
| Siec Rhif 200817 | Cyllid a Thollau (Cyllid a Thollau (Mis 5) | £51.20c |
| Siec Rhif 200818 | Costau teithio'r Clerc | £6.30c |

**Cysoniad banc o ddyddiad:**
04/07/24 – 03/08/24 - £7,887.55c
04/08/24 – 03/09/24 - £9,342.71c

Derbyniwyd y Datganiad Banc Mis Gorffennaf 2024 a Mis Awst 2024 gan y Cynghorwyr. Yn ystod cyfarfod 12/09/24, cafodd 6 siec eu harwyddo gan y Cynghorydd Tesni Jones a Cynghorydd Phil Roberts.

| | | |
|---|---|---|
| Siec Rhif 200819 | Ad-daliad am brynnu 2 lyfr stampiau | £13.60c |
| Siec Rhif 200820 | Cyflog y Clerc (Mis 6) | £204.80c |
| Siec Rhif 200821 | Cyllid a Thollau (Cyllid a Thollau (Mis 6) | £51.20c |
| Siec Rhif 200822 | Hurio Ystafell i gynnal y cyfarfod yng Nghlwb Chwaraeon, Pwllheli | £20.00 |
| Siec Rhif 200823 | Costau Teithio'r Clerc | £4.68c |
| Siec Rhif 200824 | Zurich Municipal Insurance | £214.00 |

**<u>Unrhyw fater arall</u>**
**<u>Cwblhau Archwiliad – Archwilio Cymru</u>**
Nodwyd y Clerc nad oedd wedi cael unrhyw gyswllt gyda aelodau o staff Archwilio Cymru yn dilyn uwchlwytho ein gwaith cyfrifon iddynt. Nid oes unrhyw ddiweddariad o safbwynt yr archwiliad.

**<u>Dî-ffib Twnti</u>**
Trafodwyd y Dî-ffib sydd wedi ei leoli yn Twnti. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn siarad hefo Tomos Huws. Cytunwyd i gadw un yn Twnti, a rhoi bateri a padiau newydd yn yr un sy'n Tŷ Catherine.

**<u>Ymateb i ebost "Go Safe" ynghlyn a'r pryderon o or-yrru yn y Plwf</u>**
Cytunwyd i'r Clerc ymateb i e-bost "Go Safe" gan nodi enwau'r ffyrdd a'r cyfyngiadau cyflymder sy'n achosi pryder i ni yng Nghyngor Cymuned Buan sef :
Ffordd Boduan i'r Ffôr - A499 - Cyflymder 60 mya
Ffordd o Efailnewydd i mewn i bentref Rhydyclafdy - B4415 - Cyflymder o 20 mya wrth ddod i mewn i bentref Rhydycladfdy

**<u>Trafod gohebiaeth Heddlu Gogledd Cymru – Cynllun Gwarchod Cyflymder Cymunedol</u>**
Cytunwyd i'r Clerc ymateb i ebost "Cynllun Gwarchod Cyflymder Cymunedol" gan ofyn y cwestiwn pe byddai modd i'r fan "Arrive Alive" gael ei lleoli yn Rhydyclafdy?

**<u>Lwfans Cynghorwyr</u>**
Trafodwyd y ffurfleni yma, a nodwyd nad oedd angen i'r Clerc newid unrhywbeth.

**<u>Cysylltu â'r Adran Briffyrdd</u>**
Nodwyd bod yr arwydd BODUAN wedi cael ei dynnu oddiar y bocs blodau sydd wedi ei leoli yn Pant Tacho. A fyddai modd cael diweddariad o safbwynt cael un newydd ?

Nodwyd bod angen torri coed ar hyd "Lôn Two Tones" gan eu bod wedi tyfu'n sylweddol.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf : 10/10/24 yn Nhalybont, Rhydyclafdy am 7.30yh.**